Y CWLWM

IONAWR—EBRILL 2010

" Deuwch ac Addolwn"

(10.30 y bore a 3.00 y prynhawn)

IONAWR	3	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
	10	Parch . R. O. Jones, Llanrwst
	17	Parch John Watkin, Deganwy
	24	Miss Debbie Roberts, Abergele (Bore)
		Mrs. Helen Wyn Jones, Eglwys Bach (Prynhawn)
	31	Y Gweinidog
CHWEFROR	7	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
	14	Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
	21	Y Gweinidog
	28	Parch Blodwen Jones. Llechwedd
MAWRTH	7	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
	14	Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll
	21	Parch J. Roger Roberts, Llandudno
	28	Parch Goronwy Prys Owen, Bala
EBRILL	4	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
	11	Parch J. Bryn Jones, Yr Wyddgrug
	18	Parch Phillip Barrnet, Deganwy
	25	Y Gweinidog

Croeso cynnes iawn i chi i gyd

CYFARCHIAD
Ein Gweinidog

4 Rhiwledyn
Craigside
Llandudno

Annwyl Gyfeillion,

Yr wyf am fanteisio ar fy nghyfle yn awr i ddymuno Nadolig Llawen a phob bendith i chwi i gyd drwy gyfrwng 'Y Cwlwm', er yn teimlo fy mod braidd yn debyg i'r siopau sydd wedi dechrau meddwl am y Nadolig ers diwedd yr Haf. Gan fod y rhifyn hwn o'r 'Cwlwm' i ddod allan erbyn canol Rhagfyr, d'oes dim dewis ond bod yn gynnar fy nghyfarchiad, ond siawns na chaf weld llawer ohonoch cyn yr Ŵyl, a dymuno yn dda i chwi yn bersonol. Mae'n siwr hefyd y carech fel aelodau o'r Eglwys Unedig i mi ar ein rhan i gyd i estyn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r rhai yn ein plith sydd heb fod mewn cystal iechyd neu sydd mewn galar a hiraeth. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn edrych ymlaen at y Nadolig, fe all fod oherwydd eu hamgylchiadau yn amser anodd i rai. Dymunwn i chwi i gyd bob nerth a chysur dros yr Ŵyl.

Er bod gennym rhyw bythefnos tan y Nadolig, fel y gwyddom fe fydd yr amser yn hedfan i rywle yng nghanol y prysurdeb a'r paratoi. Mae'n siwr bod nifer ohonoch bellach wedi gwneud llawer o drefniadau yn barod, yn wir, efallai bod ambell un trefnus bron yn barod at y Nadolig. Yr anrhegion wedi eu prynu, y cardiau wedi eu prynu a'u hysgrifennu, y twrci wedi ei archebu, a phopeth yn drefnus at Nadolig di-ruthro a di-drafferth. Gwaetha'r modd ychydig ohonom

sydd yn gwbwl drefnus, ac fel arfer er gwaetha pob ymdrech mae hi'n mynd yn dipyn o ruthr i gael popeth yn barod. Ar y funud diwethaf fe fydd llawer ohonom yn sylweddoli ein bod wedi anghofio am rywbeth a bydd rhuthro a ffwdan i'w drefnu.

D'oes dim rhaid i rywun fod yn broffwyd o gwbl i ddweud y bydd y mwyafrif helaeth o aelwydydd Cymru wedi anghofio am rywbeth pan fydd diwrnod 'Dolig yn gwawrio. A tristwch yw gwybod mewn oes mor faterol a seciwlar mai yr Un ddaeth yma i roi Nadolig o gwbl i ni fydd wedi ei anghofio. Fe fydd pobol yn meddwl am bob math o anrhegion i'w rhoi a'u derbyn. Ond fydd llawer ohonynt heb sylweddoli nac yn gwerthfawrogi bod Duw wedi rhoi ei Fab yn rhodd o anrhaethol werth i ni. Bydd goleuadau deniadol y byd hwn wedi dallu llygaid pobol rhag gweld "Goleuni y byd". Fe fydd rhodd Duw o fywyd newydd, maddeuant a chariad yn Iesu Grist heb ei agor na'i werthfawrogi. Fe fydd gwledda ar ddanteithion ond nid ar "Fara y bywyd", y bara "a rydd fywyd yn wir".

Ambell dro fe fydd pawb ohonom yn derbyn anrheg Nadolig na fyddwn yn ei werthfawrogi; ond gobeithio, serch hynny, yn gwerthfawrogi cariad a dymuniadau da y rhoddwr. Gobeithio y byddwn yn gweld gwerth rhodd Duw yn ei Fab, ac y byddwn yn gallu diolch a dathlu yn gywir ac o waelod calon. A boed i ni hefyd weddïo ar i Dduw unwaith eto agor llygaid pobol i weld a gwerthfawrogi ei ras a'i gariad tuag at y byd wrth roi ei Fab yn rhodd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.

Cofion annwyl.

Dafydd.

Dafydd Rees Roberts

LLOFFION O'R FESTRI

DIACONIAID / BLAENORIAID Y MIS

Ionawr

Evan Wyn Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Chwefror

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Myra Owen	Gwyddfid Davies

Mawrth

Evan Wyn Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Ebrill

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Myra Owen	Gwyddfid Davies

CYMDEITHAS PAWB

Llywydd	Dafydd Rees Roberts
Is – Lywydd	Hywel P. Williams
Ysgrifenyddion	Trefor a Beryl Lewis
Trysorydd	Chris Griffiths
Trysorydd Cynorthwyol	Gwyddfid Davies
Cydlynydd Lluniaeth	Glenys Williams

Cyfarfodydd yn Festri Seilo
Dechreuir am 7.00 o'r gloch

11 Ionawr **Crwydro Ewrop**: Sgwrs a lluniau am daith arbennig yn Ewrop gan Ifor Pugh Williams

25 Ionawr **Siôn a Siân**: Noson o hwyl yng nghwmni Hywel P. Williams

8 Chwefror **Atgofion:** Sgwrs a Chân gan Evan John Jones

22 Chwefror **Hogiau Ysbyty Ifan**: Noson o adloniant Arweinydd – Sian Ellis

1 Mawrth **Cinio Gŵyl Ddewi**: (ynghyd â'r Cymrodorion)
Gŵr Gwadd – Glyn Williams, Borth y Gest

CYFARFOD DEFOSIYNOL

Nos Lun am 7.00 o'r gloch
(ar yn ail â Chymdeithas Pawb)

4 Ionawr – Cyfarfod Gweddi
Dechrau'r Flwyddyn
18 Ionawr
1 Chwefror
15 Chwefror
8 Mawrth

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Mae'r Eglwys yn ddyledus i Gymdeithas y Chwiorydd am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, trwy'r amrywiol weithgareddau a gynhelir.

SWYDDOGION

Cadeirydd a Thrysorydd:	Margaret Griffiths
Ysgrifennydd:	Laura Roberts

Yn ystod tymor yr Hydref cynhaliwyd 3 Bore Coffi gan wneud elw o £700. Diolch am bob cefnogaeth.

Cafwyd sgwrs yng nghyfarfod Hydref gan Mrs. Gwenda Owen, Rhuthun, a chan y Parch John Lewis Jones yng nghyfarfod Tachwedd.

Mae rhaglen lawn a diddorol wedi ei threfnu at y tymor nesaf.

YR YSGOL SUL

Nos Iau, 15 Hydref, cafodd plant, rhieni,

athrawon a chyfeillion yr Ysgol Sul gyfarfod arbennig yn y festri yng nghwmni Iorwerth a Tora Roberts o Norwy. Dangoswyd i ni trwy gyfrwng *PowerPoint* luniau ohonynt yn helpu adeiladu tai yng Nghampala. Cawsom sgwrs hynod o ddiddorol, a hefyd dipyn o hanes Julius, a gwelsom y tŷ mae wedi ei adeiladu i'w deulu.

Digwyddodd hyn yng nghanol ein paratoadau ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch, a oedd yn seiliedig ar waith y tymor hwn ar y Creu. Braf oedd gweld y plant lleiaf, yn ddwy a thair oed, yn cymryd rhan am y tro cyntaf, er bod rhai wedi cael traed oer ar y diwrnod! Ar ôl dipyn o berswâd, ffurfiwyd côr o athrawon, mamau a ffrindiau'r Ysgol Sul i ganu yn y gwasanaeth; falle y bydd posib eu perswadio i gymryd rhan eto yn y dyfodol! Diolch i Dafydd am ein helpu gyda'r sgript a'r stori addas a roddodd i'r plant – mae yna luniau arbennig o dda ar y wê ohonynt gyda Paddington Bear! Rhaid diolch i'r tîm o 'stage managers' cyhyrog am osod y llwyfan i ni mewn da bryd.

Cyfanswm y casgliad oedd £500; swm arbennig o dda i'w anfon tuag at addysg Julius. 'Rydym yn gwerthfawrogi haelioni aelodau'r Eglwys ac yn dra diolchgar am y gefnogaeth unwaith eto. Dymuniad y plant oedd rhoi eu casgliad hwy y tymor hwn, sef £152, i blant Watoto. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan un o swyddogion Watoto Child Care Ministries.

Bore Sadwrn olaf mis Hydref daeth rhai o'r plant ac athrawon i'r festri, gan gydweithio'n hapus, a mwynhau cwmniaeth ei gilydd wrth lenwi'r bocsus ar gyfer 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig'. Diolch i Dafydd am ddod i'n cefnogi a'n helpu. Unwaith eto cawsom gefnogaeth hael gan aelodau'r Eglwys – trwy gyfraniadau ariannol a nifer fawr o focsus tuag at yr Ymgyrch. Y cyfanswm oedd 110 o focsus eleni, sy'n golygu ein bod wedi torri pob record! Rhaid diolch i Hazel a'i hymroddiad a'i brwdfrydedd wrth gydlynu'r Ymgyrch werthfawr yma ers nifer fawr o flynyddoedd bellach. Unwaith y bydd y Nadolig wedi mynd heibio bydd Hazel yn dechrau eto ar y gwaith o bapuro'r bocsus a hel y nwyddau.

Erbyn y bydd Y Cwlwm yn eich cyrraedd byddwn ar drothwy'r Nadolig. Mae hyn yn golygu tipyn o brysurdeb i ni – paratoi y Gwasanaeth, y bwyd i'r parti, anrhegion i'r plant, ymweliad Sion Corn, a phaned i'r aelodau ar derfyn y Gwasanaeth Nadolig bore Sul, 20ed o Ragfyr. I gloi'r flwyddyn byddwn yn mynd i'r Panto yn Venue Cymru ar y 29ain o Rhagfyr i weld 'Eira Wen' Yna cawn gyfle i roi traed i fyny tan ddechrau'r tymor nesaf.

Y CYD-GYNGOR

Fel y ceisiwyd egluro yn y Cyfarfod Eglwysig a gynhaliwyd ar y Sul Tachwedd 1af., cyfrifoldeb aelodau'r Cyd-Gyngor i'w ceisio cadw adeiladau'r Capel mewn cyflwr derbyniol. Gobeithiwn y bydd ail-doi yr Ysgoldy a'r Tŷ Capel wedi ei gwblhau yn fuan. Hyderwn hefyd y gellir setlo gor-wresogi'r festri yn y dyfodol agos, ond gan fod rhaid gwagio'r system i wneud hyn, derbyniwyd mai dechrau'r haf fyddai'r amser gorau i gyflawni'r gwaith. Byddwn hefyd yn clirio dipyn yn ystafell y blaenoriaid er mwyn cael lle diogel yn gartref i'r cyfrifiaduron, ac yn fuan wedyn gellir cynnal dosbarth i aelodau i ymgyfarwyddo â dirgelion y cyfrifiadur!

EGLWYS BETHANIA

Bydd aelodau Capel Bethania yn ymuno â ni ar gyfer ein oedfa Nadolig ar yr 20 Rhagfyr, ac edrychwn ninnau ymlaen i ymuno â hwythau yn oedfa bore Sul olaf o'r flwyddyn, 27 Rhagfyr. oedfa dan arweiniad ein Gweinidog. Hon fydd yr oedfa olaf ym Methania, gan eu bod wedi cytuno i ddirwyn yr Achos i ben yno, ac i ymuno yn Seilo ddechrau Ionawr 2010. Edrychwn ymlaen yn fawr i'w croesawu yn gynnes iawn, fel cyfrwng i gryfhau ein tystiolaeth Gymraeg yn y dref.

PWYLLGOR BUGEILIOL

Bu i'r Pwyllgor Bugeiliol gyfarfod bob yn ail mis yn ystod 2009, dan gadeiryddiaeth ein Gweinidog. Cawn gyfle i ymdrin â'r gwahanol agweddau o waith yr Eglwys, a cheir adroddiadau yn

rheolaidd o'r Ysgol Sul, Cymdeithas y Chwiorydd, gwasanaethau'r Sul a chyfarfodydd yr wythnos, yn ogystal â materion ariannol.

Nifer aelodau'r Eglwys Unedig ddiwedd Mis Medi eleni oedd:

Deganwy Avenue	75
Seilo	62
Ebeneser	30
Tabernacl	28
Bethania (1/1/2010)	32 (?)
CYFANSWM	227

DIOLCH AM WASANAETH

Diolch am wasanaeth y llu sydd yn ymdrin â gwahanol agweddau o waith yr Eglwys o wythnos i wythnos: wrth y drysau, dosbarthu llyfrau a chasglu, dosbarthu Y Cwlwm.

Mae nifer dda yn aelodau o'r gwahanol bwyllgorau: Bugeiliol, Y Cyd-Gyngor, Cymdeithas y Chwiorydd, Yr Ysgol Sul, Cymdeithas Pawb. Mae'r rhain i gyd yn gefn ac yn gymorth i'n Gweinidog, Blaenoriaid/ Diaconiaid a swyddogion y gwahanol bwyllgorau.

Diolch hefyd i'r canlynnol am eu gwaith:
Yr Organyddion: Eirys Hughes, Glenys Williams, John Arfon Jones, Rhys Roberts
Trefnwyr y Blodau: Glenys Williams, Annwen Williams
Y Gofalwr: Rhys Roberts
Y Trysorydd: Alice Davies
Tîm yr Ysgol Sul: Hazel Elias, Dilys Evans, Judith Rees Williams, Beryl Jones, Laura Roberts, Nia Higginbotham, Ivy Williams, Eirlys Jones, Eirian Williams, Sian Alwen, Eleri Williams, Delyth Williams, Sian Bratch

Diolch am bod cyfraniad a chydweithio parod - un Teulu yng Nghrist